## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 23[ain] Ionawr 2008 am 9.30 a.m.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain Jones, J M Davies, M LL Davies, S A Davies, P A Dobb, E C Edwards, G C Evans, I M German, M A German, D Hannam, T R Hughes, N Hugh-Jones, E R Jones, H Jones, M M Jones, P J Marfleet, N P Roberts, S Roberts, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Wiliams, E W Williams, R LL Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr S Frobisher, G Kensler, D Owens a J Smith

**Tom Hodgson**
Safodd y Pwyllgor Cynllunio yn ddistaw am funud er cof am y Cynghorydd Tom Hodgson, Aelod o'r Pwyllgor, a fu farw'n ddiweddar.

### 684 MATERION BRYS

Dim

### 685 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd ag angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*b) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwyswyd o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 05/2007/1370/PF | Ehangu ac ail-ffurfweddu'r maes parcio presennol yn cynnwys parcio i goetsis, cyfnewidfa fysus a lôn fysus un pwrpas, ail-leoli'r cyfleusterau ailgylchu a gwaith tirlunio a gwella amgylcheddol cysylltiedig<br>**Maes Parcio, Green Lane, Corwen**<br>**CANIATÁU** |

| | |
|---|---|
| 16/2006/1418/PR | **Siaradwr yn erbyn: Mark Wolstenholme**<br>Manylion dyluniad a golwg allanol adeilad, tirlunio a sefydlogrwydd y ddaear a gyflwynwyd yn unol ag Amodau rhif 1 a 10 Caniatâd Cynllunio Amlinellol rhif côd 16/2006/0535/PO<br>**Tir yn (Rhan o ardd) Robin Hill, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun**<br>**CANIATÁU**<br>Dileu Amod ac ail-eirio fel Nodyn i'r Ymgeisydd: Tynnir eich sylw at baragraff 13.9.2 Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) sy'n rhoi gwybod mai'r datblygwr a'r/neu'r tirfeddianwyr sydd biau'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd dilynol am ddatblygu'r safle yn ddiogel ac am ei feddiannaeth ddiogel. |
| 18/2007/1328/PF | Codi estyniad i'r adeilad presennol i ddarparu 2 ystafell wely newydd<br>**Mental Health Care Ash, Highfield Park, Llandyrnog, Dinbych**<br>**CANIATÁU** |
| 43/2007/1277/PF | Codi estyniad unllawr to serth wrth ochr ac estyniad deulawr to serth yng nghefn yr annedd<br>**117 Fforddisa Prestatyn**<br>**CANIATÁU** |
| 43/2007/1308/PF | Codi cysgodfan ar ei thraed ei hun yn yr ardd gwrw gefn<br>**Halcyon Quest, 17 Gronant Road, Prestatyn**<br>**CANIATÁU**<br>Nodyn i'r ymgeisydd:<br>Os bwriedir defnyddio'r adeiladwaith a gymeradwyir drwy hyn fel cysgodfan ysmygu, fe'ch cynghorir i gysylltu â Zoe Ankers-Phillips ar 01824 712604 i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Ddi-Fwg. |
| 45/2007/1350/PF | Cyhoeddodd y Cynghorydd H Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.<br>Cynnydd yn nifer y plant o 20 i 26 mewn meithrinfa ddydd<br>**Tots' Corner, 13 Ffordd Dyserth, Y Rhyl**<br>**CANIATÁU** |

(ii) CANIATAWYD Yn Groes i Argymhelliad Swyddogion

| | |
|---|---|
| 42/2007/1260/PC | Cadw decin yng nghefn yr annedd (cais ôl-weithredol)<br>**Cordelia, James Park, Dyserth, Y Rhyl**<br>Penderfynwyd **CANIATÁU** yn amodol ar amodau:<br>1. O fewn 3 mis i ddyddiad y caniatâd hwn mae cynllun tirlunio manwl i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo (er mwyn amwynder gweledol)<br>2. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, codi waliau neu driniaeth arall a gynhwyswyd |

yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf (ar ôl i rywun ddod i fyw yn yr annedd/ cwblhau'r datblygiad/cychwyn y datblygiad/tymor plannu a hadu nesaf) ac mae unrhyw goed neu blanhigion eraill sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu niweidio neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.

Rheswm:

Teimlai'r Aelodau nad oedd yr adeiladwaith yn oramlwg ac y gellid ei sgrinio drwy dirlunio i liniaru'r effaith.

(iii) GWRTHOD

40/2007/1020/PC

Parhau i ddefnyddio adeilad fel clinig Dosbarth D1 / ystafell ymgynghori (cais ôl-weithredol)
**Uned 88 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy**
**GWRTHOD** a bod Camau Gorfodi i'w cymryd:
Bod awdurdod i'w roi ar gyfer y canlynol:

i. Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y rhoddir y gorau i ddefnydd diawdurdod yr eiddo.
ii. Cychwyn achos erlyn, neu'r camau priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl, neu'r bobl y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall o'r fath iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn peidio â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd Gorfodi.
iii. Cyfnod i gydymffurfio; 12 mis.

(iv) GWRTHODWYD Yn Erbyn Argymhelliad Swyddog

25/2007/0565/PF

**Siaradwyr o blaid: John Woodruff / Vincent Kane**
**Siaradwyr yn erbyn: M Williams (CHA) / R Welch**
Adeiladu a gweithredu fferm wynt sy'n cynnwys un ar bymtheg o dyrbinau gwynt gydag uchafswm uchder eu blaenau heb fod yn fwy na 100m, ynghyd â thrawsnewidyddion, lonydd mynediad, switsgêr ac adeilad mesur ar y safle, dau dŵr anemometreg a seilwaith adeiladu a gweithredu cysylltiedig
**Tir i'r Dwyrain o Lyn Brenig, Nantglyn**

Wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio
O BLAID neu YN ERBYN argymhelliad y swyddogion i Roi Caniatâd Cynllunio.

PLEIDLAIS GOFNODEDIG:

Cynghorwyr a Bleidleisiodd o blaid: 4
T R Hughes, H Jones, M M Jones ac S Roberts

Cynghorwyr a Bleidleisiodd yn Erbyn: 19
R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain Jones, J M Davies, M LL Davies, E C Edwards, G C Evans, I M German, M A German, D Hannam, N Hugh Jones, E R Jones, P W Owen, N P Roberts, S Thomas, J Thompson Hill, C H Williams ac R LL Williams

Cynghorwyr a Ataliodd eu Pleidlais: 2
S A Davies a D A J Thomas

**FELLY GWRTHODWYD CANIATÂD**

Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn groes i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:

i) Sŵn
ii) Llifogydd
iii) Materion tirwedd.

25/2007/0642/PF

**Siaradwyr o blaid: M Skuse / J Yorke**

**Siaradwyr yn erbyn: N Crompton / A Russell**

Adeiladu 13 generadur tyrbin gwynt (hyd at uchder o 125m yn gyfan gwbl) yn gyflawn ag ystafell reoli drydanol a chaeadle, lonydd mynediad newydd a gwell, ceblau tanddaear, mast anemometreg 80m, gwaith ac offer atodol; gwaith adeiladu dros dro; mynediad newydd i gerbydau o'r ffordd fach wledig; gwaredu coedwig gonwydd

**Gorsedd Brân, Nantglyn**

Wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio
O BLAID neu YN ERBYN argymhelliad y swyddogion
i Roi Caniatâd Cynllunio.

PLEIDLAIS GOFNODEDIG:
Cynghorwyr a Bleidleisiodd o Blaid: 4
T R Hughes, H Jones, M M Jones ac S Roberts

Cynghorwyr a Bleidleisiodd yn Erbyn: 18
R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain Jones, J M Davies, E C Edwards, G C Evans, I M German, M A German, D Hannam, N Hugh Jones, E R Jones, P W Owen, N P Roberts, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams ac R LL Williams.

Cynghorwyr a Ataliodd eu Pleidlais: 2
S A Davies a D A J Thomas

**FELLY GWRTHODWYD CANIATÂD**

Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn groes i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:

i) Sŵn
ii) Llifogydd
iii) Materion tirwedd.

(v) GOHIRIWYD am y Rhesymau a Roddir

| | |
|---|---|
| 43/2007/0675/PC | Cadw 1 adlen ôl-dynadwy<br>**Miners Arms, 23 Ffordd Talargoch, Prestatyn**<br>**GOHIRIWYD** i ystyried yr effaith ar yr Ardal Gadwraeth ymhellach. |

(vi) TYNNWYD YN ÔL

| | |
|---|---|
| 01/2007/0732/PF | Dymchwel 5 o fythynnod adfeiliedig ac ailddatblygu'r safle drwy godi rhes o 3 annedd gyda pharcio a mynedfa gysylltiedig yn Ffordd Tan y Gwalia<br>**Tir yng nghefn 43 Love Lane yn wynebu Tan y Gwalia Dinbych**<br>**TYNNWYD YN ÔL** |

**686 MATERION GORFODI**

Cyflwynwyd: Adroddiadau (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn am Awdurdod i gymryd camau Gorfodi ar y mater canlynol:

**Tŷ Newydd, Llandegla**
Carafan Breswyl Heb Ganiatâd

**PENDERFYNWYD:**
Rhoi awdurdod i gyflwyno Rhybudd Gorfodi gyda chyfnod cydymffurfio o 3 mis yn gorchymyn:-
i) y rhoddir y gorau i ddefnyddio'r garafán fel preswylfa
ii) y symudir y garafan ymaith oddi ar y tir.

Cychwyn achos ble mae unrhyw berson y mae Rhybudd wedi'i gyflwyno iddo/iddi yn peidio â chydymffurfio â darpariaethau'r Rhybudd.

**687 HOLIADUR AR GYFER ANHEDDAU AMAETHYDDOL NEWYDD**

Cyflwynwyd: adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**PENDERFYNWYD** derbyn yr eitem uchod er gwybodaeth .

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm

*********